

7. Hyd rhaff angur prin oedd rhwngddo  
Fo â lanio yn ei le  
Pan, mewn cymysg derfysg dirfawr,  
Trawodd lawr ar graig fawr grë';  
Ei ochr ddrylliwyd gan y dyrnod,  
Erchyll drallod, archoll drist;  
Dyled pawb yw gwyllo beunydd—  
O mor ddedwydd crefydd Crist!
8. Paham, awel, y cynhyrfi?  
Ti, os plygi y *Supply*  
A dinistrio llong mor fechan,  
Llid a thuchan, gogan gei;  
Tafl y creigiau i'r rhyferthwy,  
Gwasgar hwy, ruadwy wynt;  
Bydd i'r llongau'n gynorthwyo;  
Cei dy ganmol, haeddol hynt.
9. Gweision ydyw'r gwynt a'r tonnau  
Yn cwblhau, yn ddiau, ddeddf  
Ac ewyllys eu Creawdwr;  
Sŵn Ei gryfdwr sy'n eu greddf;  
Pan ddywed "Byddwch wrwl!",  
Yn ôl Ei nerthol air hwy wnânt;  
Os rhaid gyda pheri adfyd  
Foddi hefyd, ufuddhant.
10. Sugnwyd chwech i safn Marwolaeth,  
A Rhagluniad yn rhoi glan  
I bedwar dyn ar ddeg ohonynt—  
Da fu'r helynt, Duw fo'u rhan;  
Yn ôl eu dawn, i feibion dynion  
Mae'r fath droeon chwerwon chwith  
Yn arddangos yn dra golau  
Y daw Angau ymhob rhith.
11. Thomas Williams, y llong-lywydd,  
Heddiw sydd a dydd ei daith,  
Hyd ei yrfa, wedi darfod  
Ar y gwaedol, oera' gwaith;  
A'i ferch Sidney yr un ffunud,  
Yr un munud, i'r un man;  
Hyll i hon oedd goll i' heinones,  
Garw loes, wrth gwr y lan.
12. Pe rhyw les fuasai dylais,  
Anian ymgais, dyn a'i nerth,  
Ni threngasai Ellis Gruffudd  
Yn y cystudd tonnog certh,  
Na Dafydd Thomas o Bantfali  
Yn yr heli anwar hallt;  
Taflai'r môr rai llai eu hawgrym,  
Yn nydd ei rym, i nawdd yr allt.
13. Cyrff y pedwar uchod cafwyd  
A derbynwyd gan dŷ'r bedd;  
Tua hwn mae pawb a'u trafeil—  
O mor wael yw marw wedd!  
Mae Tŷ, er datod y daearol,  
Eto'n ôl gan ddwyfol ddawn  
I'r cyflawnion: caint o'r bedrod,  
Ddydd i ddod, ollyngdod llawn.
14. Ond John Jones a William Williams,  
Enwau dinam, sy'n y don;  
Am hyn mae chwanegol gystudd,  
Och i llwyr brudd, uwch llawer bron;  
Yno'u hesgynn a wasgerir:  
Cesglir, dygir, hwy bob darn  
Pan cano'r utgorn uwch yr eigion,  
"Codwch, feirwon! Dewch i farn!"
15. Tad trugarog llawn addfwynder,  
Dy wir dyner arfer yw  
Llwyr fendithio dyrys droeon  
Er rhybuddion i'r rhai byw;  
Gwna i'r gweddill a adawyd  
Fyw yn d'arswyd a'th ofn dwys.  
A Gair dwyfol boed eu rheol  
Gydwybodol yn gyd-bwys.
16. Cafodd gweddwon gennyt ddigon  
O'r fendithion, rhoddion rhad;  
Ti i'r gwâr amddifaid gwirion  
Fuost ffyddlon dirion Dad,  
Boed i'r un drugaredd eto  
Fuan wawrio, addfwyn wedd;  
Gweddwon ac amddifaid Enlli  
Gaffo'i phrofi hi a'i heddl.
17. Drwy'r holl ynyd treiddied sobrwydd,  
I'r Air, llwydd a rhwydd fawrhad;  
Tyn ei phobl i'r wir ymgeledd  
O lewn heddl y Cyflawnhad;  
Boed eu gweddi hwy bob ennyd  
Pan ar hyd terfysgylid fôr;  
"Arglwydd, ar y gwynt a'r tonnau,  
Cau dy ddyrnau, cadw ddôr".
18. Tro galonnau gwyr y llongau  
Trwy holl barthau bannau byd  
I gydnabod ac i gredu  
Mai Ti sy'n meddu'r gallu i gyd;  
Dangos iddynt nad oes noddfa,  
Diogelta, ond y Gŵr  
A wyr rif y sêr a'u henwau,  
Rhif a phwysau'r dafnau dŵr.

Tât AWC 820. Recordiwyd (Pennill 11 yn unig) 7.10.64 gan William Jones (gof, g. 1906), Gladstone, Aberdaron, sir Gaernarfon. Yr oedd hon yn un aml o'r lloedd canuon a glywodd WJ gan ei daid, gwyr a fu'n byw ym Mhen Llŷn ar hyd ei oes.